YSGOL Y GARNEDD

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

2017-2018

CYNNWYS

Pennawd	Tudalen
Aelodau'r Corff Llywodraethu	3
Adroddiad ar weithredu o'r adroddiad olaf	4
Datganiad Ariannol	4
Perfformiad yr Ysgol / Canlyniadau 2017/18	5
Presenoldeb 2017/18	7
Cysylltiad â'r gymuned	7
Eisteddfod	7
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon	8
Targedau Perfformiad yr Ysgol	8
Chwaraeon	9
Polisïau a Strategaethau	9
Dyddiadau'r Gwyliau	9
Amser y Sesiynau	10
Newidiadau i Brosbectws/Llawlyfr	10
Cwricwlwm	10
Categori iaith	11
Defnydd o'r Gymraeg	11
Toiledau'r Ysgol	11
Bwyta'n Iach	11
Atodiad 1 – Cyllideb 2017/18	12

Adroddiad Blynyddol Y Llywodraethwyr
Ysgol y Garnedd 2017 - 2018

Cyflwynir yr adroddiad hon, sy'n grynodeb o sut y bu i'r Llywodraethwyr gyflawni eu swyddogaethau'n ystod y flwyddyn.

Aelodau'r Corff Llywodraethu

Gweler uchod restr o'r enwau a statws y llywodraethwyr ynghyd â'r dyddiad y daw eu cyfnod i ben. Mae'r llywodraethwyr wedi cyfarfod yn gyson yn ystod y flwyddyn. Mae'r pennaeth wedi adrodd yn dymhorol ac yn cynnwys adroddiadau ar rifau a phresenoldeb, materion Cwricwlaidd a chanlyniadau, lles, rheolaeth, staffio a chyllid yn ogystal ag adrodd ar lwyddiant yr ysgol, gweithgareddau a digwyddiadau. Mae cofnodion llawn o'r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

Categori	*Enw*	*Dyddiad cyfnod diweddu*
Cadeirydd y Llywodraethwyr:	Mr Ffrancon Williams	**01/09/21**
Is-gadeirydd	Mrs Nia Jones	**01/09/18**
Clerc y Llywodraethwyr	Mrs Della Jones	
Rhieni Llywodraethwyr	Mr Jason Burke	**01/09/20**
	Mr Peredur Williams	**01/09/20**
	Mr Aled Davies	**01/09/20**
	Mrs Sian Eleri Morgan	**01/09/20**
Cynrychioli'r Awdurdod Addysg	Dr Elin Walker Jones	**01/09/18**
	Dr Jason Walford Davies	**01/09/21**
	Dr Catrin Elis Williams	**01/09/20**
Cymunedol	Mrs Kathy Sion	**01/09/18**
	Mr Ffrancon Williams	**01/09/21**
	Mrs Sonia Pritchard	**01/09/18**
Cymunedol Ychwanegol	Mrs Nia Jones	**01/09/18**
Pennaeth	Mr Llion Williams	
Cynrychiolydd yr athrawon	Mrs Gwenda Edwards	**01/09/16**
	Mrs Ann Gash (aelod dibleidlais)	
Cynrychiolydd staff ategol yr ysgol	Mrs Sian Whitton	

Gellir cysylltu gyda'r Cadeirydd a'r clerc drwy gysylltu â'r ysgol.
Bydd yr etholiad nesaf yn cael ei gynnal ddechrau **Medi 2020**

PENNAETH	Mr Llion Williams	**DIRPRWY**	Mrs Ann Gash

ATHRAWON	**Blwyddyn 5 / 6**	**Blwyddyn 3/ 4**	**Blwyddyn 1/ 2**	**Dan 5**	**CPA**
	Miss Glenda Rigby Mr Rhun Griffith Miss Elin Thomas Mrs Manon Jones	Mr Carl Evans Mrs Sioned Jones Mrs Anona Farrell Jones	Mrs Gwenda Edwards Mrs Nia Thomas Mrs Lowri Elis Mrs Esyllt Bryn Jones	Mrs Ann Gash Mrs Ruth Owen Mrs Ceinwen Dwyfor-Clark Mrs Sioned Roberts	Mrs Cheryl Roberts
CYMORTHYDDION DOSBARTH	Mrs Llinos Davies Jones Miss Siân Evans	Mrs Gillian Davies Miss Jenny Hemming (Rhan Amser) Mrs Siân Whitton	Miss Delyth Roberts Miss Sioned Hughes Miss Anita Williams Mrs Claire Roberts	Mrs Bethan Owens Mrs Emma Roberts Miss Louise Roberts Miss Stacey Davies Miss Jenny Hemming (Rhan Amser)	
CYMORTHYDDION ADDYSG ARBENNIG	Miss Bethan Williams Miss Ffion Jones				
STAFF SWYDDFA	Mrs Anne Owen Mrs Della Jones				
GOFALWR A STAFF GLANHAU	Mr Arwel Owen Mrs Caron John	Mrs Heather Price Mrs Jan Gallagher			
STAFF Y GEGIN	Mrs Heulwen Parry Mrs Jane Ellis Mrs Caron John	Mr Gavin Purcell			
GORUCHWYLWYR AMSER CINIO	Mrs Anne Owen Mrs Eirlys Hughes Mr Arwel Owen				

Adroddiad ar weithredu o'r adroddiad olaf

Ni alwyd cyfarfod gyda'r llywodraethwyr gan rieni yn ystod 2016-17
Anfonwyd adroddiad blynyddol allan i bob teulu.
Nid oedd eitemau penodol i weithredu arnynt.

Datganiad Ariannol

Gweler atodiad 1 o gyllideb ddiweddaraf yr ysgol.

Cronfa'r Ysgol - Mae'r gronfa wedi ei harchwilio yn unol â'r gofynion.

Rhoddion i'r ysgol: Bu'r gymdeithas rieni yn brysur iawn eto yn casglu arian ar gyfer yr ysgol - hoffai'r Llywodraethwyr ddiolch yn fawr i'r rhieni yma ac i bawb a gyfrannodd at eu hymdrechion i gasglu arian. Mae'r ysgol yn gwneud yn fawr o'r cyfraniadau ac yn gwerthfawrogi'r arian ychwanegol yn fawr. Casglwyd dros £5000 tuag at wella darpariaeth ar gyfer y disgyblion.

Costau Teithio a Chynhaliaeth Llywodraethwyr: £0

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiad Cwricwlwm Cenedlaethol 2018 gyda Meincnodi – Cyfnod Allweddol 2

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):

Bechgyn			
	Canran ysgol 2018	Canran AALl 2017	Canran Cymru 2017
Saesneg	100	92	89
Cymraeg	100	88	89
Mathemateg	100	93	90
Gwyddoniaeth	100	93	91
DPC	100	91	87

Merched			
	Canran ysgol 2018	Canran AALl 2017	Canran Cymru 2017
Saesneg	96	95	94
Cymraeg	96	94	95
Mathemateg	92	94	93
Gwyddoniaeth	96	95	94
DPC	92	94	92

Disgyblion			
	Canran ysgol 2018	Canran AALl 2017	Canran Cymru 2017
Saesneg	97	93	91
Cymraeg	97	91	92
Mathemateg	94	93	92
Gwyddoniaeth	97	94	92
DPC	94	92	90

DPC – Dangosydd pwnc craidd (Os yw disgybl wedi llwyddo i gael Lefel 4+ mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth ac unai Cymraeg a/neu Saesneg)



Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)



Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiad Cwricwlwm Cenedlaethol 2017 gyda Meincnodi – Cyfnod Sylfaen

Bechgyn			
	Canran ysgol 2018	Canran AALl 2017	Canran Cymru 2017
Personol a chymdeithasol	100	93	92
Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg	100	85	88
Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu Saesneg	0	50	85
Datblygiad Mathemategol	100	88	88
Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)	100	83	84

Merched			
	Canran ysgol 2018	Canran AALl 2017	Canran Cymru 2017
Personol a chymdeithasol	100	98	97
Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg	100	92	94
Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu Saesneg	0	80	92
Datblygiad Mathemategol	100	93	92
Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)	100	91	91

Disgyblion			
	Canran ysgol 2018	Canran AALl 2017	Canran Cymru 2017
Personol a chymdeithasol	100	95	95
Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg	100	88	91
Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu Saesneg	0	58	88
Datblygiad Mathemategol	100	90	90
Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)	100	87	87

Er mwyn ennill y DCS, rhaid i ddisgybl gyrraedd y deilliant disgwyliedig (Deilliant 5+), o leiaf, yn Bersonol a chymdeithasol a Mathemateg ill dau a naill ai Cymraeg neu Saesneg/

Yr oedd canlyniadau Cyfnod Sylfaen yn ardderchog. Llwyddodd pob disgybl i gyrraedd Deilliant 4+ yn y pedwar maes. Gweler isod y wybodaeth ar ffurf graff.



Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)



Presenoldeb 2017/18

Presenoldeb	95.3%
Absennol gydag Awdurdod	4.23%
Absennol di Awdurdod	0.03%

Targed Presenoldeb ar gyfer 2017/18 yw 96.0%

Cysylltiad â'r gymuned

Enghreifftiau o Gysylltiadau â'r gymuned ac ymweliadau / digwyddiadau:

- Côr yr ysgol yn canu yng Nghartref yr henoed;
- Cynnal gwasanaeth diolchgarwch yng Nghapel Berea Newydd;
- Plant Bl. 5 wedi treulio penwythnos yng Nglan-llyn;
- Plant Bl6 wedi bod yng Nghaerdydd ac yn ymweld â Phwll Mawr, Sain Ffagan, y Cynulliad a Stadiwm Principality;
- Bl 5 yn ymweld â Pentre Peryglon;
- Bl 3 a 4 yn ymweld â Techniquest;
- Bl 5 a 6 yn mynd ar daith i Gwm Idwal;
- Plant Blwyddyn 1 a 2 wedi ymweld â Pharc Glynllifon;
- Blwyddyn 1 a 2 wedi ymweld ag Amgueddfa Llanystumdwy;
- Dan 5 ymweld â Pharc y Faenol;
- Dosbarth Derbyn yn ymweld â Pili Palas;
- Adran Babanod ac Adran Iau wedi bod yn y Pantos Nadolig;
- Ymweliad gan Barbara Grofic o NASA;
- Ymweliad gan Steven Williams, Tŷ'r Cyffredin;
- Ymweliadau tymhorol gan PC Dylan Pritchard (Addysg Bersonol a Chymdeithasol);
- Criw o Flwyddyn 2 yn ymweld â phreswylwyr Cae Garnedd i wneud gwahanol weithgareddau;
- Cyngerdd paratoi at Eisteddfod yr Urdd;
- Cynnig profiad gwaith i fyfyrwyr Ysgolion Uwchradd, Coleg Llandrillo a Phrifysgol Bangor;
- Cyd-weithio gyda Chylch Meithrin Lleol;
- Cefnogi Elusennau lleol a chenedlaethol.

Eisteddfod

Yn gyntaf, diolch i bawb a fu'n rhan o'r hyfforddi a gofalu, a rhoi o'u hamser i'r plant. Bu i nifer o eitemau fynd ymlaen i'r Genedlaethol gyda'r Cyflwyniad Dramatig ar y llwyfan.

Sioned Thomas oedd y llenor buddugol yn Eisteddfod yr Ysgol eleni. Fe fydd Sioned yn cael cadw cadair fach a ddyluniwyd gan ddisgyblion Bl.6 a chrëwyd gan Mr Peredur Williams. Canmolwyd safon y gwaith yn fawr iawn gan Mrs Ruth Owen (beirniad).

Diolch i'r Parchedig Huw John Hughes, ein Harchdderwydd arferol a Mrs Ruth Owen am feirniadu'r gystadleuaeth.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Diolch i aelodau'r Gymdeithas am eu hymroddiad gydol y flwyddyn. Derbyniodd yr ysgol gyfraniadau tuag at gostau teithiau diwedd blwyddyn y disgyblion yn ogystal ag ymrwymiad i dalu am offer chwaraeon sefydlog yn yr Adran Iau.

Hoffai'r ysgol a'r Corff Llywodraethu ddiolch i'r gwirfoddolwyr ac i aelodau'r Gymdeithas Rhieni Athrawon sydd yn rhoi o'u hamser i gefnogi Ysgol Y Garnedd. Diolch hefyd i'r rhieni sydd bob amser yn barod i gynorthwyo'r ysgol gyda gweithgareddau ac ymweliadau.

Targedau a Pherfformiad Yr Ysgol

Canlyniadau Ysgol Y Garnedd 2017/18		
Cyfnod Sylfaen	2017/2018 Bl.2	
Maes	Targed	Canlyniad
Dangosydd Cyfnod Sylfaen	97.6%	100%
Personol a Lles D5+	100%	100%
Personol a Lles D6+	85.7%	92.9%
Iaith D5+	100%	100%
Iaith D6+	45.1%	50%
Mathemateg D5+	97.6%	100%
Mathemateg D6+	40.5%	45.2%

Canlyniadau Ysgol Y Garnedd 2017/18		
Cyfnod Allweddol 2	2017/2018 Bl.6	
Maes	Targed	Canlyniad
Cymraeg L4+	97.2%	97.2%
Cymraeg L5+	47.2%	63.9%
Saesneg L4+	97.2%	97.2%
Saesneg L5+	50%	69.4%
Mathemateg L4+	97.2%	94.4%
Mathemateg L5+	69.4%	66.7%
Gwyddoniaeth L4+	97.2%	97.2%
Gwyddoniaeth L5+	66.7%	66.7%
Dangosydd Pwnc Craidd	97.2%	94.4%

Gosodir y targedau gan ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth, tystiolaeth a data. Adolygir y targedau dair gwaith y flwyddyn. Credwn ein bod yn gosod targedau uchel iawn i'r disgyblion ac yn addasu'r ddarpariaeth i geisio sicrhau fod pawb yn eu cyrraedd. Er yr addasiadau i'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ychwanegol, ar adegau, nid yw pob disgybl yn cyrraedd eu targedau am amrywiaeth o resymau. Yr ydym yn ffyddiog ein bod wedi rhoi pob cefnogaeth posib iddynt i gyflawni eu potensial. Yn ogystal, mae rhai disgyblion yn perfformio uwchlaw eu targed.

Chwaraeon

Mae'r ysgol yn rhoi bri a statws i amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a gwneir defnydd o Bwll Nofio Bangor yn ogystal â neuaddau chwaraeon lleol i gynnig amrediad o chwaraeon.

'Rydym yn defnyddio Pwll Nofio Bangor i ddatblygu sgiliau nofio, a bu nifer o'r plant yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Gala Nofio Bangor Ogwen, Sir ac yn Genedlaethol.

Yn ogystal â'r gweithgareddau uchod, defnyddir neuadd a chaeau'r ysgol ar gyfer gweithgareddau megis Gymnasteg, Pêl-droed, Rygbi, Pêl-rwyd a Chriced.

Mae'r ysgol yn trefnu ac yn hybu'r llu o glybiau chwaraeon ac yn cystadlu mewn nifer o gystadlaethau drwy'r flwyddyn. Dathlir llwyddiannau'r plant yn gyhoeddus e.e. yn ystod gwasanaethau boreol, gwefan ysgol, papur lleol ac ar gyfri Trydar yr Ysgol.

Cafodd dim pêl-droed o Bl 5 a 6 brofiad bythgofiadwy yn cynrychioli gogledd Cymru yn rownd derfynol 'Premier League Stars' a gynhaliwyd yn Stadiwm King Power, cartref Clwb Uwch Gynghair Caerlŷr.

Polisïau a Strategaethau

Adolygwyd amryw o bolisïau'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae copïau o'r polisïau ar gael yn yr ysgol.

Dyddiadau'r Gwyliau 2017– 2018

Hanner Tymor yr Hydref		30 Hydref – 3 Tachwedd 2017
Gwyliau'r Nadolig		25 Rhagfyr 2017 - 5 Ionawr 2018
Hanner Tymor		12 - 16 Chwefror 2018
Gwyliau'r Pasg		26 Mawrth 2018 – 6 Ebrill 2018
Calan Mai		7 Mai 2018
Hanner Tymor		28 Mai 2018 – 1 Mehefin 2018
Gwyliau'r Haf		23 Gorffennaf - 31 Awst 2018

Dyddiau H.M.S.
1 Medi 2017
6 Tachwedd 2017
22 Rhagfyr 2017
19 Chwefror 2018
18 Mehefin 2018

Amserau'r sesiynau

Sesiwn Bore	Sesiwn Y prynhawn
8:50 -11:00 (Meithrin)	12:50 - 14:50 (Meithrin)
8:50 - 11:50 (C.S)	12:50 - 14:50 (C.S)
8:50 - 12:00 (CA2)	13:00 - 15:30 (CA2)

Newidiadau i brosbectws/ llawlyfr yr Ysgol

Cyhoeddir llyfryn Gwybodaeth i Rieni yn flynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am drafnidiaeth a rheolau'r ysgol. Mae copi o'r llyfryn ar wefan yr ysgol gyda chopi papur ar gael yn yr ysgol ar gais rhieni. Ar ddechrau pob blwyddyn addysgol cyflwynir llawlyfr newydd/wedi ei addasu. Fe all eu hysbysu am newidiadau ym mholisïau'r ysgol. Newidiwyd y canlynol eleni:

- Staffio a'r Corff Llywodraethu
- Trefniadaeth Dosbarthiadau
- Canlyniadau Asesiad Diwedd Cyfnod Allweddol

Cwricwlwm

Fel pob ysgol arall mae Ysgol Y Garnedd yn dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ac agweddau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae crynodeb o gwricwlwm yr ysgol yn ein llawlyfr ysgol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol:
Amcan yr ysgol yw adnabod y plant gyda ADY yn fuan er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth orau a mwyaf cynhwysfawr y gellir ar eu cyfer gan helpu'r disgyblion gyrraedd eu llawn potensial.

I'r perwyl hwn, mae Cynlluniau Addysg Unigol yn cael eu paratoi ar gyfer y plant a byddwn yn adolygu'r rhain gyda'r rhieni. Cyd-gysylltydd ADY Ysgol Y Garnedd ydi Mr Llion Williams a Dr Elin Walker Jones yw'r Llywodraethwr sydd yn gyfrifol am ADY. Mae'r ysgol yn targedu pob plentyn sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol – Caiff y camau eu diffinio fel '**Gweithredu Ysgol'** (cymorth wedi ei drefnu a'i dalu amdano gan yr ysgol) neu '**Gweithredu Ysgol +**' (cymorth gan yr ysgol a gan asiantaeth arall) i gyrraedd y lefelau disgwyliedig.

Nid ydym yn gosod yr un targed i ddisgyblion sydd ar **Gyfnod 3*/ CDU** neu ar **Ddatganiad** (plant sydd fel rheol angen cymhorthydd yn y dosbarth i'w helpu am gyfnodau amrywiol) yn enwedig yn yr agwedd o waith ble maent yn cael trafferthion. Mae targedau heriol o fewn eu gallu yn cael eu gosod i'r disgyblion yma.

Disgyblion Anabl:
Bydd yr ysgol yn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion sydd ag anableddau. Mae polisïau'r ysgol yn sicrhau na fydd disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r disgyblion eraill.

Categori Iaith

Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog

Defnydd o'r Gymraeg

Y Gymraeg yw prif iaith yr ysgol.

Y Gymraeg yw prif iaith Y Cyfnod Sylfaen – bydd plant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu 'trochi' yn yr iaith a buan iawn y dônt i siarad yn rhugl.

Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu'r ysgol. Nod Siarter Iaith Ysgolion Cymraeg Gwynedd yw i bob plentyn siarad Cymraeg ar y coridorau ac allan ar yr iard.

Yn unol â Pholisi Iaith Gwynedd addysgir pob plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Saesneg yn cael ei chyflwyno yn anffurfiol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yn ffurfiol o Flwyddyn 3 ymlaen. Ein nod yw i bob plentyn fod yn rhugl ddwyieithog yn gadael yr ysgol.

Os bydd plentyn di-gymraeg yn dod i'r ysgol, bydd yn cael ei 'drochi' yn yr iaith yn y Cyfnod Sylfaen ac yn mynd i'r Uned Iaith leol (Maesincla) am dymor yn Gyfnod Allweddol 2.

Toiledau'r Ysgol

Mae toiledau pwrpasol, gan gynnwys toiledau 'bach' yn y Cyfnod Sylfaen - cymhareb tua 1:14
Mae toiledau bechgyn a merched ar wahân yn CA2 – cymhareb tua 1:19
Mae toiledau'r staff yng nghyntedd yr ysgol.

Bydd y toiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol.

Bwyta'n Iach

Darperir lleoliadau penodol i ddisgyblion blynyddoedd 3 i 6 lenwi poteli dŵr a gosodwyd trefn mewn lle er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at ddŵr yn y dosbarthiadau. Mae pob disgybl Cyfnod Sylfaen yn derbyn llefrith yn ddyddiol. Trefnir caffi dyddiol i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Anogir bocsys bwyd iach ar draws yr ysgol a hyrwyddir 'Bwydlen Cinio Ysgol Gwynedd'.

Mae'r ysgol wedi'i llwyddo i gael y wobr ansawdd Ysgolion Iach Gwynedd.

Mae bwyta ac yfed yn iach yn destun trafodaethau a phrofiadau addysgol gwerth chweil ar draws yr ystod oedrannau o wasanaethau ysgol gyfan i wersi gwyddoniaeth Blwyddyn 6.

Atodiad 1 - Cyllideb 2017/2018

YSGOL GYNRADD Y GARNEDD	2123		
CYLLIDEB 2017/2018	**Cyllideb Drafft 2017/2018**	**Addasiadau**	**Cyllideb Terfynol 2017/2018**
GWEITHWYR			
Cyflogau - Athrawon	£758,565		£758,565
Athrawon Llanw - Premiwm Cynllun Absenoldebau	£24,534	-£1,143	£23,391
- Llanw Arall	£0		£0
- Amser Di-gyswllt Ysgol	£4,000		£4,000
- Anghenion Arbennig	£0		£0
Staff Ategol - Staff Cinio	£9,573		£9,573
- Gweinyddesau / Cymorthyddion	£229,055	£2,100	£231,155
- Clerigol	£24,239		£24,239
- Clerc Llywodraethwyr	£1,070		£1,070
- Gofalwr (Goramser)	£1,000		£1,000
Ardoll Prentisiaeth (0.5%)	£4,200		£4,200
ADEILADAU			
Cynnal a Chadw	£5,000	-£2,000	£3,000
Cynnal a Chadw - Adran Eiddo	£6,704		£6,704
CLG Gwasanaeth Eiddo	£2,346		£2,346
Costau Ynni - Trydan	£5,818	-£1,228	£4,590
- Nwy	£2,960	-£460	£2,500
- Dwr	£4,326		£4,326
- Olew	£0		£0
Cynllun Rheoli Carbon	£1,688		£1,688
Contract Glanhau	£17,210		£17,210
Contract Gofalu	£9,190		£9,190
Contract Cynnal Tir	£2,310		£2,310
Defnyddiau Glanhau	£1,400	£1,100	£2,500
Offer Ymladd Tan	£100	£200	£300
Trethi	£11,230		£11,230
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU			
Lwfans y Pen	£41,685	-£11,685	£30,000
Dodrefn	£0		£0
Post	£250		£250
Ffôn/ Ffacs a Rhwydwaith	£1,200	£1,300	£2,500
CLG Swyddfa Ardal	£8,599		£8,599
CLG Gwasanaeth Cyllidol	£1,000		£1,000
CLG Rheoli Banc	£342		£342
CLG Cyflogau a Personel	£4,675		£4,675
CLG Integreiddio	£0		£0
CLG Arlwyaeth	£30,517		£30,517
CLG Llyfrgelloedd	£99		£99
CLG Archifau	£251		£251
Pyllau Nofio a Chwaraeon	£1,400	£1,600	£3,000
Gwasanaeth Cerdd	£3,500	£500	£4,000
CLG Cefnogaeth Technoleg	£3,816		£3,816
Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion	£8,397		£8,397
Arian Wrth Gefn (arian heb ei ymrwymo)	£0		£0
CYFANSWM GWARIANT	**£1,232,249**	**-£9,716**	**£1,222,533**
INCWM - Gosodiadau	-£8,420		-£8,420
CYFANSWM CYLLIDEB NET	**£1,223,829**	**-£9,716**	**£1,214,113**
DYRANIAD	**£1,039,325**		**£1,039,325**
GWAHANIAETH TYMOR HIR	**-£184,504**	**£9,716**	**-£174,788**
ADDASIADAU TYMOR BYR			
Defnydd o balansau		£14,027	£14,027
Grant Datblygu Disgyblion		£25,450	£25,450
Grant Gwella Addysg - Cyfnod Sylfaen amcanol		£135,311	£135,311
GWAHANIAETH 2017/2018	**-£184,504**	**£184,504**	**£0**